# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 4 Rhagfyr 2016
am 6.20y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dylan Edwards (Cadeirydd), Ann Tudor, Meic Francis, Caredig Jones, Dewi Rattray & Meirion Davies.**

**YMDDIHEURIADAU: Ada Evans, Rowland Jones, Richard Davies, John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:**

Dachraeodd y cyfarfod am 6.20 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Rhagfyr gan y Cadeirydd Dylan Edwards. Darllenwyd cyfnodion Miss Tachwedd gan y clerc. Fe wnaeth y Cyng.Meic Francis cynig eu bod yn gywir ac fe eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.

**15/951 - MATERION YN CODI**

1. Rhoddwyd diolch gan y Cadeirydd Dylan Edwards i bawb ar noswaith goleuo'r goeden lwyddiannus eleni eto. Roddwyd diolch i Caredig Jones am archebu'r goeden, rhaid dweud fod yn edrych yn arbennig. Diolch i Ada Evans am drefnu'r lluniaeth eleni eto ei fod yn absennol oherwydd salwch; anfonwyd dymuniadau brysia wella i Ada. Diolch i TME electrical am osod y golau, i'r Cadeirydd Dylan Edwards am arwain y noson ac wrth sgwrs i Sion Corn am gymrid amser allan o'u hamserlen brysur i weld plantos y pentref eleni eto!
2. Nid oes ymateb wedi eu derbyn eto ynglŷn â 'collapsed drain' na'r safle bws wrth ymyl Penrhiwfach. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu eto ynglŷn â hyn.
3. Nid oes ymateb wedi eu derbyn eto ynglŷn â thwll yn y ffordd ger Llidiardau. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir unwaith eto ynglŷn â hyn.

**15/952- LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Mrs Deborah Hughes ynglŷn â'r diffyg olau tu allan i'r Hen Ysgol. Mae hyn yn bwnc sydd yn codi'n aml. Yn anffodus, yn y gorffennol, nid yw'r cyngor cymuned wedi cael unrhyw lwyddiant pam yn ofyn i'r cyngor sir edrych mewn i'r matter yma. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu atynt eto gyda'r manylion ychwanegol yma.
2. Llythyr wrth Anthea Turner yn codi sylw at y faith bod safle bws y pentref ddim yn rhoi lawer o gysgod wrth y tywydd pam yn aros am fws. Ofynnwyd I'r clerc phasio'r llythyr yma ymlaen at y cyngor sir.
3. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

**15/953- ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Tachwedd, sef £113.27. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray. Fe wnaeth y Cyng.Caredig Jones datgan diddordeb.
2. Invoice oddiwrth y Cung.Ada Evans am lluniaeth noson oleuo'r goeden sef £46.95. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Caredig Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dwei Rattray.

**15/954 - CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw gais wedi eu derbyn.

**15/955 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw at faint o faw cwn sydd yn cael eu gadael ar balmentydd y pentref. Nid yw hyn yn dderbyniol. Fydd rhaid cadw llygaid ar y mater yma. Mae cwynion wedi eu derbyn oddiwrth aelodau o'r cyhoedd sydd yn defnyddio'r llwybr yma i gerdded plant i'r ysgol ayb.
2. Mae'r aelodau'r Cyngor Cymuned yn dymuno'n dda i Neville Jones ar ôl eu triniaeth.
3. Dymuniadau orau ar wellhad buan hefyd i'r Cyng. Rowland Jones.

Orffenwyd y gyfarfod am 7 o'r gloch.